Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Tywyn

Golwg y Sianel
Sandfields
Port Talbot
SA12 6JF

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Tywyn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Tywyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 439 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 332 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 64 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.7%) | 38.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 9.2%) | 28.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 1.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.1% |

| | |
|---|---|
| Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2025 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/06/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 02/02/2026 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned groesawgar, ofalgar a chynhwysol lle rhoddir blaenoriaeth i les disgyblion. Mae gan staff ddisgwyliadau uchel, ac mae perthnasoedd cadarnhaol yn helpu disgyblion i deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, wedi setlo ac yn barod i ddysgu. Mae ymddygiad yn dda, ac mae disgyblion yn frwdfrydig am ddysgu.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir ac yn gweithio'n dda gyda staff a llywodraethwyr i yrru gwelliannau ymlaen. Er bod capasiti arwain yn datblygu'n dda, nid yw eto'n sicrhau addysgu a dysgu sy'n gyson gryf yn effeithiol ar draws yr ysgol.

Mae gan arweinwyr systemau a disgwyliadau effeithiol fel bod disgyblion mewn dosbarthiadau prif ffrwd ac yn y ganolfan cymorth dysgu (CCD) yn dysgu, yn chwarae ac yn cymdeithasu â'i gilydd, ble bynnag y bo modd. Mae staff yn addasu dysgu yn effeithiol, fel bod disgyblion yn elwa ar brofiadau ar y cyd. Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryfder, a gefnogir trwy waith agos gyda theuluoedd ac asiantaethau allanol. Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar waith i fonitro presenoldeb, ond mae presenoldeb cyffredinol yn rhy isel o hyd.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau cyfathrebu a llythrennedd yn dda. Mae cyfleoedd rheolaidd ar gyfer trafod a pherfformio yn helpu disgyblion i ddod yn siaradwyr hyderus. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn ysgrifennu'n dda at ystod o ddibenion ac yn ymfalchïo yn eu gwaith. Mae'r disgyblion ieuengaf yn gwneud cynnydd da mewn darllen o'u mannau cychwyn trwy storïau, caneuon a rhigymau difyr, ynghyd ag addysgu ffoneg yn effeithiol. Mae cyfleoedd i ddisgyblion hŷn ymestyn eu medrau darllen yn datblygu'n briodol. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol a'u medrau Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cael eu datblygu'n gyson ar draws yr ysgol.

Mewn mathemateg, mae disgyblion yn datblygu medrau priodol, ar y cyfan. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid yw dysgu yn y dosbarthiadau hŷn yn symud yn ddigon cyflym nac yn darparu her ddigonol. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion hŷn ddatblygu eu medrau rhesymu a dyfnhau eu dealltwriaeth.

Mae'r cwricwlwm yn datblygu'n briodol. Mae staff yn dechrau defnyddio'r ardal leol, y gymuned a theuluoedd yn effeithiol i gyfoethogi dysgu a datblygu hyder a medrau disgyblion. Mae disgyblion yn dylanwadu ar fywyd yr ysgol yn gynyddol trwy rolau arwain a chyfleoedd rheolaidd i rannu eu safbwyntiau.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Cryfhau rôl tîm arweinyddiaeth ehangach yr ysgol mewn gwella cysondeb addysgu a phrofiadau dysgu ar draws yr ysgol

A2 Cryfhau gwybodaeth bwnc athrawon ac addysgu mathemateg ar draws yr ysgol i sicrhau cynnydd cyson gryf ar gyfer pob un o'r disgyblion

A3 Parhau i wella presenoldeb

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae’r pennaeth yn sefydlu gweledigaeth strategol glir ar gyfer addysg a lles disgyblion sy’n ymateb yn dda i anghenion cymuned yr ysgol. Mae arweinwyr yn gweithio’n effeithiol gyda staff ar bob lefel i ddatblygu diwylliant proffesiynol myfyriol sy’n ennill momentwm ac yn cael effaith gadarnhaol ar draws yr ysgol.

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cyffredinol da o’u mannau cychwyn unigol. Mae perthnasoedd cryf rhwng staff a disgyblion yn sail i les disgyblion a’u hagweddau at ddysgu. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn darparu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol effeithiol, gan alluogi bron pob un o’r disgyblion i deimlo’n ddiogel, yn hyderus a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae bron pob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, ac yn ymgymryd â’u dysgu â pharodrwydd ac yn frwdfrydig.

Mae’r disgyblion ieuengaf yn ymgyfarwyddo’n gyflym â bywyd yr ysgol gan fod staff yn sefydlu arferion cyson a disgwyliadau clir sy’n cefnogi annibyniaeth gynnar. Mae darpariaeth ddysgu gynnar yn y dosbarthiadau prif ffrwd a dosbarthiadau’r ganolfan cymorth dysgu (CCD) yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion archwilio ac ymgysylltu â’u dysgu. Mae staff medrus yn gweithio’n dda i ddarparu cyfleoedd difyr, wedi’u paru’n dda, i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau. Fodd bynnag, ar adegau, mae staff yn methu cyfleoedd i ddefnyddio cyd-destunau dilys a bywyd go iawn i ddyfnhau dysgu.

Mae staff yn gwneud defnydd da o holi, gan ddefnyddio ystod o fathau o gwestiynau ac ymatebion disgyblion i addasu dysgu’n effeithiol. Mae llawer o staff yn defnyddio seibiannau byr i wirio dealltwriaeth disgyblion ac yn darparu adborth clir a phwrpasol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwrando’n ofalus ar adborth ac yn ei ddefnyddio’n dda i wella’u gwaith.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd ar gyfer siarad a pherfformio ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn helpu llawer o ddisgyblion i ddatblygu medrau llafaredd cryf dros gyfnod. Mae llawer o athrawon yn modelu iaith yn dda, yn defnyddio geirfa sy’n benodol i bwnc yn gywir ac yn gofyn cwestiynau pwrpasol sy’n annog disgyblion i esbonio’u meddwl. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio geirfa a strwythurau brawddeg cynyddol gymhleth yn hyderus i gyfiawnhau barnau, meithrin dadleuon a pherfformio i gyfoedion a chynulleidfaoedd ehangach.

Mae staff yn dilyn dull clir a strwythuredig o ddatblygu medrau ysgrifennu, ac mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu’n dda at ystod addas o ddibenion. Mae athrawon yn darparu

adborth rheolaidd a phenodol sy’n galluogi disgyblion i ymateb a gwella’u gwaith. At ei gilydd, mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn ei gyflwyno i safon dda.

Mae llawer o ddisgyblion yn y dosbarthiadau iau yn datblygu eu medrau darllen cynnar yn dda. Mae sesiynau adrodd storïau, rhigymau a chanu rheolaidd yn dal diddordeb disgyblion ac yn meithrin agweddau cadarnhaol at lyfrau a darllen o oedran cynnar. Mae staff yn adeiladu ar yr ymgysylltu cryf hwn trwy addysgu ffoneg yn systematig ac atgyfnerthu medrau allweddol yn gyson, gan alluogi disgyblion iau i ddarllen â chywirdeb a rhuglder cynyddol. Mae disgyblion hŷn yn datblygu medrau darllen ehangach yn briodol. Serch hynny, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digonol i ddisgyblion hŷn ymgysylltu ag ystod gyfoethog o destunau heriol i ddyfnhau eu medrau dod i gasgliad a’u medrau dadansoddol.

Mae arweinwyr a staff yn hyrwyddo’r Gymraeg yn briodol, a chânt eu cefnogi gan grwpiau arweinyddiaeth disgyblion brwdfrydig. Fodd bynnag, mae defnydd disgyblion o’r Gymraeg yn anghyson o hyd. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio strwythurau cyfarwydd mewn gwersi Cymraeg ond maent yn llai hyderus o ran cymhwyso’r rhain yn annibynnol.

Mae medrau mathemategol disgyblion yn datblygu’n briodol, ar y cyfan. Mewn mwyafrif o wersi, mae athrawon yn esbonio syniadau’n glir, yn defnyddio iaith fathemategol ac yn gofyn cwestiynau â ffocws i gywiro camdybiaethau. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae disgwyliadau isel yn arafu cyflymdra, ac mae tasgau sy’n cynnwys llawer o daflenni gwaith yn cyfyngu ar gyfleoedd disgyblion i feddwl yn ddwys ac esbonio’u rhesymu.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o barch, cyfrifoldeb a lles. Mae staff yn creu ethos gofalgar a chynhwysol, ac mae disgyblion yn dangos caredigrwydd, derbyniad a pharch tuag at bobl eraill. Mae disgyblion yn dysgu am y byd o’u cwmpas, yn cynnwys gwahanol wledydd a diwylliannau, ac yn defnyddio’r ddealltwriaeth hon wrth drafod materion moesegol ac effaith dewisiadau ar bobl eraill. Maent yn deall sut mae dewisiadau am ffordd iach o fyw yn dylanwadu ar les corfforol ac emosiynol.

Mae darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn gryfder arbennig. Mae arweinwyr yn defnyddio staff yn effeithiol ac yn darparu dysgu proffesiynol buddiol. Mae staff yn defnyddio ystod eang o strategaethau yn llwyddiannus, yn cynnwys cymhorthion gweledol, arwyddion, adnoddau synhwyraidd a chymhorthion cyfathrebu digidol, i ddiwallu anghenion disgyblion.

### Ciplun: Arfer gynhwysol

Mae ethos cynhwysol cryf yn sail i waith yr ysgol. Mae gan arweinwyr systemau a disgwyliadau clir fel bod disgyblion yn y dosbarthiadau prif ffrwd a’r CCD yn dysgu, yn

chwarae ac yn cymdeithasu â'i gilydd, ble bynnag y bo modd. Mae staff yn addasu dysgu yn dda, gan alluogi disgyblion i gymryd rhan mewn profiadau ar y cyd. Mae'r dull hwn yn hyrwyddo cydraddoldeb, yn lleihau rhwystrau rhag dysgu ac yn cefnogi cynnydd, lles a balchder disgyblion mewn perthyn i gymuned yr ysgol.

Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd addas i ddatblygu medrau meddwl, medrau datrys problemau, a medrau creadigol a chorfforol. Wrth weithio'n annibynnol, mae llawer o ddisgyblion yn esbonio'u syniadau'n glir ac yn cyfiawnhau eu meddwl. Mewn ychydig o ddosbarthiadau hŷn, mae oedolion yn gor-gyfarwyddo tasgau, sy'n cyfyngu ar annibyniaeth disgyblion ac wrth iddynt ddatrys problemau yn ystod tasgau creadigol. Mae staff yn cefnogi datblygiad corfforol disgyblion yn dda trwy ystod eang o weithgareddau dan do ac awyr agored, gan alluogi disgyblion yn y brif ffrwd a'r CCD i ddatblygu hyder, rheolaeth a chydsymud.

Mae disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth addas o ddiogelwch ar-lein, ac mae llawer ohonynt yn defnyddio offer digidol yn dda i gyflwyno gwybodaeth a chefnogi eu dysgu. Maent yn defnyddio technoleg ag annibyniaeth gynyddol i wella ansawdd eu gwaith, ac yn cyfleu eu syniadau yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn datblygu cwricwlwm pwrpasol a chynyddol ddifyr. Mae testunau perthnasol, profiadau uniongyrchol a defnydd effeithiol o'r ardal leol, ymwelwyr a rhieni yn dod â dysgu'n fyw, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos brwdfrydedd a chymhelliant. Mae defnydd athrawon o brosesau asesu a dilyniant yn gwella ac yn cefnogi cynnydd disgyblion yn gynyddol dda. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon da yn gyson eto ar draws pob maes dysgu i gynllunio'r camau nesaf yn gywir.

Mae arweinwyr yn darparu ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol pwrpasol sy'n cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau gwella, sy'n dylanwadu ar arfer ystafell ddosbarth yn gynyddol. Mae arweinwyr yn cynnwys staff yn llwyddiannus mewn gwerthuso darpariaeth a chynllunio gwelliant. Mae trafodaethau proffesiynol yn canolbwyntio'n gynyddol ar effaith camau gweithredu ar gynnydd a phrofiadau disgyblion. Mae hyn wedi arwain at welliannau mewn ysgrifennu, adborth ac agweddau ar y cwricwlwm. Fodd bynnag, er bod capasiti arwain yn datblygu'n dda, nid yw'n effeithiol eto o ran sicrhau addysgu a dysgu sy'n gyson gryf.

Mae arweinwyr a staff yn cryfhau lles ac ymgysylltiad disgyblion trwy weithio'n effeithiol gyda theuluoedd a phartneriaid allanol. Maent wedi cynyddu gallu'r ysgol i ddarparu cymorth targedig ar gyfer teuluoedd sydd angen cymorth ychwanegol trwy roi systemau priodol ar waith, a chyflogi staff priodol. Mae'r dull hwn yn dechrau gwella presenoldeb ar gyfer ychydig o ddisgyblion sy'n absennol yn barhaus trwy feithrin perthnasoedd cryfach â theuluoedd. Fodd bynnag, mae cyfran y disgyblion sy'n absennol yn barhaus yn rhy uchel

o hyd. Mae staff yn gweithio'n agos gyda darparwyr allanol i gefnogi cyfnodau pontio esmwyth ar gyfer disgyblion o fewn yr ysgol, ac wrth iddynt symud rhwng sectorau, yn cynnwys y rhai ag ADY. Maent yn darparu cymorth estynedig ar gyfer dysgwyr bregus wrth iddynt symud ymlaen i'r ysgol uwchradd.

Mae llywodraethwyr yn cyfrannu'n weithredol at fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn darparu cymorth a her addas, yn rhoi ystyriaeth briodol i safbwyntiau disgyblion ac yn rhannu dealltwriaeth glir o gryfderau a blaenoriaethau'r ysgol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn peri pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae’r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *‘y rhan fwyaf o ddisgyblion…’* neu *‘ychydig iawn o ddisgyblion…’*. Rydym yn defnyddio’r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/04/2026